

RHYBUDD O FWRIAD

DEDDF RHEOLI TRAFNIDIAETH FFYRDD, 1984 ADRAN
14(1) FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DEDDF TRAFNIDIAETH
FFYRDD (CYFYNGIADAU DROS DRO), 1991

GORCHYMYN CYNGOR SIR YNYS MÔN /
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
(GWAHARDD TRAFFIG TRWODD DROS DRO) (LÔN
GORAD, Y FALI) 2025

NOTICE OF INTENTION

ROAD TRAFFIC REGULATION ACT, 1984 SECTION
14(1) AS AMENDED BY THE ROAD TRAFFIC
(TEMPORARY RESTRICTIONS) ACT, 1991

CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL
(TEMPORARY PROHIBITION OF THROUGH TRAFFIC)
(GORAD ROAD, VALLEY) ORDER 2025

RHODDIR DRWY HYN RYBUDD fod Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council yn bwriadu dim llai na saith niwrnod ar ôl dyddiad y rhybudd hwn wneud Gorchymyn bydd yn gwahardd dros dro pob cerbyd, ac eithrio cerbydau argyfwng, rhag teithio mewn unrhyw gyfeiriad ar hyd Lôn Gorad, Y Fali.

NOTICE IS HEREBY GIVEN that Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council intend not less than seven days from the date hereof to make an Order, the effect of which will temporarily prohibit all vehicles, except for emergency vehicles, from travelling in either direction along Gorad Road, Valley.

Mae angen y Gorchymyn gan fod angen gwaith cloddio i sefydlu lleoliad, dyfnder a diamedr y prif gyflenwad nwy pwysedd uchel a dŵr cyfaint uchel presennol cyn adnewyddu Ceblau Foltedd Uchel sy'n croesi Lôn Gorad.

The Order is necessary as excavations required to establish location, depth and diameter of existing high-pressure gas and high-volume water mains prior to renewal of High Voltage Cables crossing Gorad Road.


Y ffordd arall fydd o ochr ddwyreiniol y cau, teithio ar hyd Lôn Gorad i gyfeiriad dwyreiniol i'r A5025 yn Llanynghenedl a throi i'r dde. Teithiwrch ar hyd yr A5025 i gyfeiriad y de orllewin i Groesffordd y Fali A5. Trowch i'r dde i'r A5 a theithio i gyfeiriad y gogledd orllewin drwy bentref Y Fali i'r gyffordd â Lôn Gorad a phen arall y ffordd sydd ar gau. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio o'r cyfeiriad arall.

The alternative route will be from the eastern side of the closure, travel along Gorad Road in an easterly direction to the A5025 in Llanynghenedl and turn right. Travel along the A5025 in a south westerly direction to the A5 Valley Crossroads. Turn right onto the A5 and travel in a north westerly direction through the village of Valley to the junction with Gorad Road and the opposite end of the closure. Vice versa for traffic travelling from the opposite direction.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 19eg Mai 2025 a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod na fydd yn fwy na 6 wythnos neu hyd nes y cwblheir y gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd, pa un bynnag fyddo gyntaf. Ar hyn o bryd disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau ar 2il Mehefin 2025.

The Order comes into effect on 19th May 2025 and will continue in force for a period not exceeding 6 weeks or until the work which it is proposed to carry out on the road is completed, whichever is the earlier. At this stage it is anticipated that the works will be completed on 2nd June 2025.

DYDDIEDIG 30/04/2025 DATED



MARED W YAXLEY

RHEOLWR GWASANAETHAU CYFREITHIOL/Legal Services Manager
CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
SWYDDFA'R SIR/COUNTY OFFICES, LLANGEFNI, YNYS MÔN LL77 7TW

AM FWY O WYBODAETH YNGLYN Â'R UCHOD CYSYLLTWC'H Â'R ADRAN GYFREITHIOL AR /
FOR FURTHER INFORMATION REGARDING THE ABOVE PLEASE TELEPHONE THE LEGAL
SECTION ON LLANGEFNI 01248 752389 HT-026710-SMJ

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.

You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.